



# Creu'r Darlun: Archwiliad o reolaeth gwybodaeth yr heddlu

Heddlu Dyfed Powys

Gorffennaf 2015

© HMIC 2015

ISBN: 978-1-78246-824-0

[www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic](http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic)

# Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad</b> .....	<b>3</b>
Pam fod rheoli gwybodaeth yn bwysig.....	3
Cefndir: Gwnaethpwyd Camgymeriadau .....	4
Methodoleg.....	5
<b>2. Canfyddiadau ar gyfer Heddlu Dyfed Powys</b> .....	<b>8</b>
Cyffredinol .....	8
Casglu a chofnodi.....	8
Gwerthuso .....	9
Rheoli gwybodaeth yr heddlu – proses gyffredinol .....	9
Rhannu gwybodaeth yr heddlu .....	10
Cadw, adolygu a gwaredu .....	10
<b>3. Adroddiad thematig – Argymhellion cenedlaethol</b> .....	<b>11</b>
I'r Swyddfa Gartref a'r Arweinydd Cenedlaethol ar gyfer Maes Busnes Rheoli Gwybodaeth .....	11
I'r prif gwnstablaid.....	11
I'r Coleg Plismona.....	12

# 1. Cyflwyniad

Mae Arolygiaeth Cwnstablïaeth EM (HMIC) yn arolygiaeth annibynnol, gyda chyfrifoldeb statudol i "archwilio, ac adrodd i'r Ysgrifennydd Cartref ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd pob heddlu a gynhelir fel ardal heddlu" yng Nghymru a Lloegr<sup>1</sup>.

Mae'r adroddiad hwn yn sefydlu casgliadau o'n hadolygiad o'r modd mae'r heddluoedd yng Nghymru a Lloegr yn casglu, cofnodi, gwerthuso a rhannu gwybodaeth.<sup>2</sup>

## Pam fod rheoli gwybodaeth yn bwysig

Gwybodaeth<sup>3</sup> yw enaid gwasanaeth yr heddlu. Mae'n arwain at ymchwiliadau effeithiol, arestio amserol a chanlyniadau cyfiawnder troseddol priodol. Mae hefyd yn helpu atal cyflawni troseddau pellach. Mae gwybodaeth yn allweddol yn y frwydr yn erbyn troseddau.

Mae achosion sy'n ymddangos i fod yn unigryw o ymddygiad amheus neu droseddol yn dod yn fwy arwyddocaol os gellir dangos, trwy gysylltu gwybodaeth, nad ydynt yn unigryw, ond yn ffurfio patrwm o ymddygiad sy'n peri gofid. Efallai y bydd y darlun cyfan yn llawer mwy na'r darnau ar wahân. Dyma pam fod cysylltu gwybodaeth a chreu'r darlun o'r drosedd mor bwysig – a pham y gall goblygiadau methu creu'r cysylltiadau cywir gael effaith andwyol arwyddocaol ar y cyhoedd; er enghraifft, y camgymeriadau a wnaethpwyd yn ystod triniaeth yr heddlu o gyhuddiadau yn erbyn Jimmy Savile. Rydym yn trafod hyn yn fanylach isod.

Mae penderfyniad diweddar y Goruchaf Lys yn *R (Catt) v Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu* [2015]<sup>4</sup> yn pwysleisio pwysigrwydd allweddol cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar Reoli Gwybodaeth yr Heddlu 2005, yr Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig cysylltiedig (APP) ar reoli gwybodaeth<sup>5</sup> a'r rhifynnau blaenorol o'r

---

<sup>1</sup> Adran 54(2) o Ddeddf yr Heddlu 1996.

<sup>2</sup> Mae'r adran rheoli gwybodaeth o Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig yn diffinio cudd-wybodaeth fel "gwybodaeth a gasglwyd sydd wedi ei darparu ar gyfer gweithredu" ([www.app.college.police.uk](http://www.app.college.police.uk)). Felly, yn nhermau plismona, nid yw'r holl wybodaeth wedi ei dosbarthu fel cudd-wybodaeth, ond mae pob darn o gudd-wybodaeth yn fath o wybodaeth. Yn yr adroddiad hwn, mae'r term gwybodaeth yn gynnwys gwybodaeth a chudd-wybodaeth oni bai y datganir fel arall.

<sup>3</sup> Yn yr adroddiad hwn, defnyddir 'gwybodaeth' i gyfeirio at wybodaeth a chudd-wybodaeth. Gweler tudalen 20.

<sup>4</sup> *R (Catt) v Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac un arall (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac eraill yn ymyrryd)* [2015] UKSC 9.

<sup>5</sup> *Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig ar reoli gwybodaeth*, Coleg Plismona, 2013. Ar gael o'r [www.app.college.police.uk/app-content/information-management/management-of-police-information/](http://www.app.college.police.uk/app-content/information-management/management-of-police-information/)

canllaw cenedlaethol.<sup>6</sup> Yn ei dyfarniad, mae'r Farwnes Hale yn adleisio un o brif themâu'r adroddiad hwn gan ddatgan: "Nid oes angen ein hatgoffa, ers llofruddiaeth y ddwy ferch fach gan ofalwr ysgol yn Soham ac argymhellion yr adroddiad ac Ymchwiliad Bichard a ddilynodd (2004) (HC 653), o rôl allweddol uno'r eitemau gwahanol o gudd-wybodaeth yr heddlu wrth atal yn ogystal â chanfod troseddau."<sup>7</sup>

## Cefndir: Gwnaethpwyd Camgymeriadau

Ar 12 Mawrth 2013, cyhoeddodd HMIC gasgliadau adolygiad i sut y deliodd y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan, Heddlu Surrey a Heddlu Sussex â'r wybodaeth a chyhuddiadau a dderbyniont rhwng 1964 a 2008 parthed ymddygiad rhywiol troseddol y diweddar Jimmy Savile.<sup>8</sup>

Ystyriodd yr adolygiad hwn sut y gweithredodd yr heddluoedd hyn y Cod Ymarfer ar Reoli Gwybodaeth yr Heddlu 2005, yr APP ar reoli gwybodaeth<sup>9</sup> a'r cyn rifynnau o'r canllaw cenedlaethol<sup>10</sup> i ddelio â'r wybodaeth a chyhuddiadau. Mae hefyd wedi archwilio i ba raddau y gwnaeth yr heddluoedd hynny ddefnydd effeithiol o Gronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu<sup>11</sup> i gasglu darnau annibynnol o wybodaeth ynghyd (o fewn ac ar draws heddluoedd) a thrwy hynny i greu darlun o faint a natur y troseddu honedig.

---

Dyma'r corff o ganllaw a gyhoeddwyd gan y Coleg Plismona i ddarparu polisïau a gweithdrefnau i wasanaeth yr heddlu yng Nghymru a Lloegr eu dilyn.

<sup>6</sup> Cyhoeddir y Cod Ymarfer ar Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu dan adrannau 39 a 39A, Deddf yr Heddlu 1996 ac adrannau 28, 28A, 73 a 73A Deddf yr Heddlu 1997. Ar gael o <http://library.college.police.uk/docs/homeoffice/codeofpracticefinal12073.pdf>

<sup>7</sup> *Ibid*, paragraff 48.

<sup>8</sup> "Mistakes Were Made" – Adolygiad HMIC i ddeunydd cyhuddiadau a chudd-wybodaeth yn ymwneud â Jimmy Savile rhwng 1964 a 2012, HMIC, Mawrth 2013. Ar gael gan [www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic/media/review-into-allegations-and-intelligence-material-concerning-jimmy-savile.pdf](http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic/media/review-into-allegations-and-intelligence-material-concerning-jimmy-savile.pdf)

<sup>9</sup> *Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig ar reoli gwybodaeth*, Coleg Plismona, 2013. Ar gael o [www.app.college.police.uk/app-content/information-management/management-of-police-information/](http://www.app.college.police.uk/app-content/information-management/management-of-police-information/) Dyma'r corff o ganllaw a gyhoeddwyd gan y Coleg Plismona i ddarparu polisïau a gweithdrefnau i wasanaeth yr heddlu yng Nghymru a Lloegr eu dilyn.

<sup>10</sup> *Canllaw ar Reoli Gwybodaeth yr Heddlu*, rhifyn 1af, Awdurdod Hyfforddi a Datblygu Canolog yr Heddlu, 2006, a gynhyrchwyd gan y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Rhagoriaeth Plismona, a'r ail rifyn o'r un cyhoeddiad, a gynhyrchwyd gan yr Awdurdod Cenedlaethol Gwella Plismona yn 2010. Cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn fel 'canllaw cenedlaethol'.

<sup>11</sup> Mae Cronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu yn system reoli gwybodaeth genedlaethol sy'n gwella gallu gwasanaeth yr heddlu i reoli a rhannu gwybodaeth, i atal a chanfod troseddau ac i wneud cymunedau'n fwy diogel. Mae'n cynnig gallu i wasanaeth yr heddlu rannu, cael mynediad at a chwilio am wybodaeth leol yn electronig, gan drechu ffiniau daearyddol ac awdurdodaethol artiffisial.

Casglodd HMIC y gwnaethpwyd camgymeriadau wrth drin gwybodaeth a chyhuddiadau a datgan ein bod “yn pryderu digon am reoli gwybodaeth” i gynnal adolygiad pellach i’r maes hwn. Mae’r archwiliad hwn yn cwblhau’r ymroddiad hwn ac yn ateb y cwestiwn: a allai’r un camgymeriadau ddigwydd eto?

## Methodoleg

Ein prif amcanion archwilio oedd sefydlu:

- os oedd strategaethau, polisiâu a gweithdrefnau’r heddlu ar gyfer rheoli gwybodaeth yn cadw at egwyddorion yr APP ar reoli gwybodaeth ac os oedd cyn rifynnau’r canllaw cenedlaethol yn gymesur â’r risg ac yn addas i’r diben;
- os yw gwybodaeth a chudd-wybodaeth yn cael ei chasglu, cofnodi, gwerthuso a gweithredu arni, archwilio a chadw gan yr heddlu (yn cynnwys ymyraethau diogelu) mewn modd effeithiol; ac
- os yw defnydd o Gronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu yn effeithiol ac effeithlon.
- I ateb y cwestiynau hyn, dadansoddodd HMIC ganlyniadau arolwg hunanasesiad<sup>12</sup> o arferion rheoli gwybodaeth a gwblhawyd gan y 43 heddlu yng Nghymru a Lloegr yn 2013 (i roi syniad o’r darlun cenedlaethol), a chwblhau tri diwrnod o waith maes ym mhob un o’r 13 heddlu.

## Casgliadau archwiliad cenedlaethol

O ystyried ei bod yn ofynnol i brif gwnstabiliaid dalu sylw i’r Cod Ymarfer ar Reoli Gwybodaeth yr Heddlu 2005, roeddem yn disgwyl naill ai:

- y byddent yn sicrhau bod eu heddluoedd yn cydymffurfio â’r Cod, a gyda’r adran berthnasol ar yr APP ar reoli gwybodaeth neu rifynnau blaenorol o’r canllaw cenedlaethol;<sup>13</sup> neu
- os, oherwydd eu cyd-destun ac amgylchedd gweithredu lleol, eu bod yn penderfynu peidio cydymffurfio ag elfennau’r APP ar reoli gwybodaeth neu gyn rifynnau o’r canllaw cenedlaethol, y cadwyd cofnodion priodol am ehangder a’r rhesymeg dros symud i ffwrdd o’r Cod.

---

<sup>12</sup> Cafodd yr arolwg hwn ei gomisiynu gan Arweinydd Maes Busnes Rheoli Gwybodaeth ACPO, a’i gyflawni ar ei ran gan y Coleg Plismona. Rydym yn ddiolchgar am gael caniatâd i ddefnyddio’r canlyniadau.

<sup>13</sup> *Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig ar reoli gwybodaeth*, Coleg Plismona, 2013. Ar gael o [www.app.college.police.uk/app-content/information-management/management-of-police-information/](http://www.app.college.police.uk/app-content/information-management/management-of-police-information/) Dyma’r corff o ganllaw a gyhoeddwyd gan y Coleg Plismona i ddarparu polisiâu a gweithdrefnau i wasanaeth yr heddlu yng Nghymru a Lloegr eu dilyn.

Roeddem yn siomedig felly i ganfod mai dim ond mewn tri o'r 13 o heddluoedd a archwiliom oedd y rhesymau dros benderfyniadau i beidio dilyn yr APP ar reoli gwybodaeth neu gyn rifynnau o'r canllaw cenedlaethol wedi eu cofnodi.

Roeddem hefyd yn disgwyl i bob heddlu sefydlu strategaeth rheoli gwybodaeth gyfredol - gofyniad a nodir yn y Cod Ymarfer ar Reoli Gwybodaeth yr Heddlu 2005. Eto, roeddem yn siomedig i weld nad oedd hyn yn wir bob tro.

O ganlyniad i gyfraith achos ac achosion proffil uchel fel cyfnod hir Jimmy Savile o droseddau rhyw, rydym yn pryderu'n benodol am i ba raddau mae gwasanaeth yr heddlu yn ymateb yn llawn i'r cyfrifoldebau sy'n gynhenid mewn amgylchedd newidiol, tra bod mynediad cyflym i wybodaeth gyfredol a pherthnasol yn allweddol. Er enghraifft, canfuom achosion ble nad oedd heddluoedd wedi ailedrych ar eu sefyllfa ers i wasanaeth cyfan yr heddlu gwblhau cynlluniau gweithredu rheoli gwybodaeth lleol yn 2010. O ran hyn o beth, mae absenoldeb cyfundrefnau archwilio a sicrwydd priodol (i wirio bod gwybodaeth yn cael ei hasesu, cadw neu waredu yn briodol) yn arbennig o bryderus, ac angen sylw buan.

Canfu HMIC bod heddluoedd oedd yn cynnal tîm rheoli gwybodaeth canolog yn gallu mabwysiadu egwyddorion yr APP ar reoli gwybodaeth a rhifynnau blaenorol o'r canllaw cenedlaethol yn well. Roedd hyn yn arbennig o wir pan oedd gan y timau hynny fynediad at system gyfrifiadurol integredig oedd yn gallu cyfeirio a hwyluso asesiad o'r holl wybodaeth a gadwyd ar unigolyn a enwyd heb fod angen chwilio ar systemau cyfrifiadurol arwahanol.

Mae'n fater o bryder difrifol nad oes digon o adolygu'n digwydd o'r wybodaeth a gedwir gan heddluoedd. Heb yr adolygiadau hyn – a'r modd i arddangos eu bod wedi digwydd yn gywir neu o gwbl – mae gwasanaeth yr heddlu yn ei adael ei hun yn agored i her. Mae absenoldeb adolygiadau cadarn a chyson yn golygu y gellir dinistrio gwybodaeth pan ddylid ei gadw, gan gynyddu'r risg i ddiogelwch y cyhoedd.

Mae faint o wybodaeth y mae'r heddlu ei hangen yn golygu na ellir gwerthuso a phrosesu pob darn o wybodaeth ar yr un pryd. Yna mae'r cwestiwn yn codi o ran sut i nodi'r darnau hynny o wybodaeth sy'n galw am ystyriaeth fwy uniongyrchol nag eraill. Yn amlwg, dylid ystyried gwybodaeth sy'n hysbysu'r heddlu o fwy o risg neu risg uniongyrchol i'r cyhoedd cyn gynted â phosibl. Canfuom fod i ba raddau yr adolygwyd, blaenoriaethwyd a mynegwyd gwybodaeth - a'r gallu i gyflawni'r ymarfer hwn - yn amrywio o fewn heddluoedd.

Archwiliodd llinyn arwyddocaol o'n harchwiliad sut mae gwybodaeth sensitif<sup>14</sup> yn cael ei thrin, yn arbennig pan fydd wedi ei chaffael a chadw o ganlyniad i weithgareddau plismona arbenigol megis ymchwiliadau troseddau mawr, ymchwiliadau gwrthderfysgaeth ac ymchwiliadau mewnol i swyddogion a staff yr heddlu am gamymddwyn, neu lygredd neu dramgwyddau troseddol eraill. Canfuom fod cwmpas ar gyfer gwell integreiddiad rhwng systemau TG sy'n cynnal gwybodaeth sensitif a'r cronfeydd data prif ffrwd sydd ar gael i'r heddlu (fel System Ymholiad Sylweddol Mawr y Swyddfa Gartref<sup>15</sup>). Mae cwmpas hefyd ar gyfer prosesau mwy effeithiol i drosglwyddo gwybodaeth rhwng systemau; tra bod ein harchwiliad wedi canfod rhywfaint o ymwybyddiaeth o'r problemau a achoswyd gan ddiffyg prosesau o'r fath (er enghraifft, mae rhai heddluoedd yn datblygu modd i nodi, ynysu a throsglwyddo cofnodion priodol ar sail fesul achos), mae angen gwneud mwy o hyd.

Ble mae gwybodaeth wedi ei nodi i fod yn sensitif, rhaid i'r heddlu gyflawni adolygiadau o bryd i'w gilydd i bennu a yw dosbarthiad o'r fath yn dal yn briodol. Mae pwysigrwydd gwybodaeth yn codi a gostwng gydag amser, a dylai gwasanaeth yr heddlu wneud mwy i weithredu ar yr amrywiadau hyn. Canfuom dystiolaeth bod gwahanol arferion yn cael eu dilyn yn y 43 heddlu yng Nghymru a Lloegr o ran delio â gwybodaeth sensitif.

Roeddem hefyd yn poeni am weld mai dim ond pedwar o'r heddluoedd yr ymwelom â nhw oedd â pholisi ledled yr heddlu yn nodi sut ddylid trin gwybodaeth sensitif; a hyd yn oed yn y pedwar heddlu yna, nid oedd gennym unrhyw dystiolaeth i ddangos bod cydymffurfriad â'r polisi yn cael ei fonitro i sicrhau ei fod yn cael ei ddilyn. Mae absenoldeb arferion cyson ynghyd â gwahanol ddulliau o ran gweithredu yn peryglu'r gallu i reoli gwybodaeth yn effeithiol.

O ganlyniad i'r casgliadau hyn, rydym wedi gwneud deg argymhelliad (i'r Swyddfa Gartref; yr arweinydd cenedlaethol ar gyfer y maes busnes rheoli gwybodaeth; prif gwnstablaid a'r Coleg Plismona). Fe'i cyflwynir ar dudalen 11.

## Canfyddiadau archwiliadau yn Nyfed Powys

Yng ngweddill yr adroddiad hwn, rydym yn disgrifio ein canfyddiadau ar gyfer archwiliad Heddlu Dyfed Powys, a gyflawnwyd rhwng 2 a 4 Mehefin 2014. Dylid darllen y rhain ynghyd â'r adroddiad thematig, *Building the Picture: an inspection of police information management*, sydd ar gael o

[www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic/wp-content/uploads/building-the-picture.pdf](http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic/wp-content/uploads/building-the-picture.pdf)

<sup>14</sup> 'Gwybodaeth sensitif' yw'r hyn a gynhwysir mewn ardaloedd busnes arbenigol, ac a letyir ac a ddefnyddir yn gyffredinol tu allan i systemau a phrosesau cudd-wybodaeth plismona prif ffrwd. Felly mae ar gael i swyddogion arbenigol yn unig. Ymhlith yr enghreifftiau mae gwybodaeth ar weithrediadau cyfredol; ymchwiliadau troseddau mawr neu wybodaeth wrthderfysgaeth; a gwybodaeth a gedwir gan gyfarwyddiaethau safonau proffesiynol.

<sup>15</sup> System TGCh a ddefnyddir ar gyfer ymchwiliadau troseddol mawr.

## 2. Canfyddiadau ar gyfer Heddlu Dyfed Powys

### Cyffredinol

Y dirprwy brif gwnstabl yw'r arweinydd prif swyddog ac mae'n goruchwyllo, ac yn gyfrifol am, reoli gwybodaeth ar draws yr heddlu. Mae bwrdd sicrwydd gwybodaeth yr heddlu yn darparu canllaw a chyfeiriad strategol ar gyfer rheoli gwybodaeth. Mae bwrdd ansawdd data yn delio â phryderon yr heddlu ynghylch ansawdd data.

Ar adeg yr archwiliad, roedd yr heddlu yn delio â newid strwythurol a rheoli arwyddocaol oedd i ddod i ben yng Ngorffennaf 2014, ar adeg yr archwiliad, fodd bynnag, nid oedd proses yn ei lle i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei phasio ymlaen wrth newid personél, gan gynyddu'r risg o fylchau mewn gwybodaeth am faterion rheoli gwybodaeth.

### Casglu a chofnodi

Pan fydd swyddog yn creu cofnod cudd-wybodaeth, bydd yn ychwanegu cod trin<sup>16</sup> cyn ei gyflwyno i system cudd-wybodaeth yr heddlu.

Mae swyddogion cymorth cudd-wybodaeth (ISOs) yn chwarae rôl allweddol o ran asesu ansawdd cofnodion cudd-wybodaeth. Yn ystod cyfweiliadau, fe amlygodd yr ISOs bod ansawdd cudd-wybodaeth wedi gwella ers dod â system cudd-wybodaeth newydd yr heddlu i rym sawl mlynedd yn ôl. Mae gallu staff cefnogaeth cudd-wybodaeth a goruchwylwyr i wrthod cudd-wybodaeth o ansawdd gwael yn electronig a'i anfon yn ôl at y sawl sy'n ei gyflwyno wedi ei ystyried i fod yn allweddol i'r gwelliant mewn safonau.

Mae'r systemau troseddau yn hysbysu goruchwylwyr yn awtomatig yn y gyfarwyddfa wybodaeth a chudd-wybodaeth pan fydd troseddau risg uchel newydd, megis troseddau cam-drin plant a rhyw, yn cael eu llumanu yn y system yn seiliedig ar god troseddau'r Swyddfa Gartref.

Ni chanfuom unrhyw dystiolaeth, fodd bynnag, o unrhyw archwiliadau ansawdd gwybodaeth. Ar adeg yr archwiliad, cawsom wybod nad oedd dim wedi digwydd am dros 15 mis.

---

<sup>16</sup> Cyflwynwyd y Cod Trin dan y Model Cudd-wybodaeth Cenedlaethol (gweler: Cyflwyniad i blismona a arweinir gan gudd-wybodaeth, a gynhyrwyd ar ran Cymdeithas Pris Swyddogion yr Heddlu gan y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Rhagoriaeth mewn Plismona, 2007). Mae'n gwerthuso'r ffynhonnell, dilysrwydd y data a sensitifrwydd trin darn o wybodaeth. Mae gan bob categori bump graddiad posibl, ac felly mae'r system yn cael ei galw gan bawb o fewn yr heddlu yn 5x5x5.



## Gwerthuso

Cedwir gwybodaeth yr heddlu o fewn y pum maes busnes craidd<sup>17</sup> yn lleol ar gyfres o systemau unigol, heb eu cysylltu. Fodd bynnag, mae cyfleuster chwilio o'r enw'r 'prif fynegai enwol' (PNI) wedi ei gyflwyno.

Mae'r PNI wedi ei ddatblygu dros nifer o flynyddoedd i ddarparu mecanwaith i grwpio cofnodion ar wahân am yr un unigolyn a gedwir mewn systemau cyfrifiadurol nad ydynt wedi eu cysylltu neu wedi'u cysylltu, er mwyn ei gwneud yn haws i adfer ac asesu'r wybodaeth. Dyfeisiwyd y system yn wreiddiol i helpu'r heddlu i fodloni gofynion y Cod Ymarfer MoPI a chanllaw cenedlaethol cysylltiedig. Fodd bynnag, efallai bod y buddion y gallai'r PNI ddarparu fod wedi'u dargyfeirio ffocws datblygiad y system tuag at ofynion cudd-wybodaeth a dadansoddiad. Canfuom fod effeithlonrwydd y PNI wedi ei gyfaddawdu i raddau oherwydd bod categorïau gwybodaeth ar goll, yn cynnwys cofnodion cam-drin plant a thrais domestig.

Fe wnaethom nodi nad oedd cyflwyno'r PNI yn cael ei reoli fel prosiect ffurfiol a bod diffyg eglurder o ran sut oedd yn cyd-fynd â nodau ac amcanion yr heddlu.

## Rheoli gwybodaeth yr heddlu – proses gyffredinol

Amlinellodd strategaeth wybodaeth yr heddlu fwriadau'r heddlu, ond ni chyflwynodd bolisi na gweithdrefn i fodloni canllawiau cenedlaethol. Fodd bynnag, roedd yn cynnwys diagramau llif gwybodaeth a chudd-wybodaeth fel bod meysydd allweddol, megis risgiau i fywyd o ddrylliau a diogelu'r cyhoedd, yn flaenoriaeth.

Nid oedd polisi heddlu na datganiad oedd yn disgrifio a mesur yn llawn sut mae'r heddlu yn bodloni'r Cod Ymarfer a chanllaw cenedlaethol cysylltiedig. Ni nodwyd unrhyw fylchau na gwahaniaethau o'r arferion hyn, na'u cofnodi na'u hasesu am risg.

Yn ogystal, ni chafwyd unrhyw adolygiad ffurfiol o gynnydd yr heddlu ar reoli gwybodaeth ers sefydlu'r rhaglen genedlaethol ar ddiwedd 2010 (gweler argymhelliad cenedlaethol 1).

Cafodd adroddiad HMIC, '*Mistakes were made*', yn dilyn adolygiad o Ymgyrch Yewtree a chyhuddiadau hanesyddol ynghylch Jimmy Savile, eu hadolygu'n anffurfiol gan ddetholiad o reolwyr a staff rheoli gwybodaeth. Fodd bynnag, ni chynhaliwyd unrhyw adolygiad na dadansoddiad ffurfiol.

---

<sup>17</sup> Mae cam-drin plant, trais domestig, cystodaeth, troseddau a chudd-wybodaeth yn cael eu hadnabod fel y pump maes busnes craidd ar gyfer llwytho i fyny i Gronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu (PND).

## **Rhannu gwybodaeth yr heddlu**

Mae'r heddlu wedi cydnabod y risg bod y swm mawr o wybodaeth ar System Ymholiad Sylweddol Mawr y Swyddfa Gartref (HOLMES) yn hygyrch i nifer fechan o staff yn unig. Roedd rhywfaint o waith wedi ei wneud 18 mis cyn ein harchwiliad gyda chydweithwyr o Dde Cymru a Heddlu Gwent ar drosglwyddiad awtomatig gwybodaeth HOLMES i systemau cudd-wybodaeth heddluoedd lleol; fodd bynnag, ychydig iawn o gynnydd a fu ers hynny.

Wrth gyflwyno adroddiad, fe ychwanegir cod trin cudd-wybodaeth gan y swyddog sy'n cyflwyno i bennu sut ddylid trin y cofnod.

Pan fydd y swyddog sy'n cyflwyno'r adroddiad wedi dynodi cyfyngiad i atal y gudd-wybodaeth rhag cael ei gweld yn ehangach, mae'r cod trin cudd-wybodaeth yn cael ei hailasesu a chymeradwyo gan ISO. Gallai hyn olygu newid i'r cod trin cudd-wybodaeth os oes angen. Canfuom nad oedd proses safonol i sicrhau adolygiad pellach o wybodaeth gyfyngedig unwaith yr oedd wedi ei gymeradwyo gan ISO. Gydag amser, mae hyn yn golygu wrth fod yr angen i gyfyngu cudd-wybodaeth yn lleihau, nad yw'r wybodaeth yn cael ei darparu'n ehangach i'r rhai fyddai'n ei chael yn ddefnyddiol. (gweler argymhellion cenedlaethol 7).

## **Cadw, adolygu a gwaredu**

Mae'r holl wybodaeth ar systemau'r heddlu yn cael ei chadw am gyfnod amhenodol. Nid oes proses adolygu, a dim proses gyson ar gyfer dileu gwybodaeth unwaith na fydd bellach yn ddefnyddiol i'r heddlu. Mae hyn yn cynyddu'r risg o ddyblygu cofnodion a chyfaddawdu ar ymchwilio a dadansoddi (gweler argymhellion cenedlaethol 1, 6 a 9).

Mae oedi hir wrth wneud yr holl wybodaeth weithredol o systemau cyfrifiadurol heddluoedd ar gael ar y PNI wedi bod yn ffactor arwyddocaol wrth ohirio cadw, adolygu a dileu cofnodion heddluoedd.

Roedd dwy swydd yn ymroddedig i ddargadw, adolygu a gwaredu ar wybodaeth yr heddlu, er bod un o'r rhain yn wag yn adeg yr archwiliad. Cyflwynwyd y swyddi hyn i helpu'r heddlu i fodloni elfennau perthnasol y canllaw APP cenedlaethol. Fodd bynnag, gan nad oedd y swyddogaethau adolygu rheoli gwybodaeth wedi eu galluogi'n llawn ar y PNI, roedd staff yn hytrach yn canolbwyntio ar ddileu gwybodaeth ddarfodedig oedd wedi mynd heibio i gyfnodau cadw a ddiffiniwyd yn yr APP.

Gyda'r newidiadau yn digwydd i strwythur yr heddlu, nid oedd yn glir faint o amser fyddai'n cael ei ymroi yn y dyfodol i gadw, adolygu a gwaredu ar gofnodion (gweler argymhellion cenedlaethol 4, 5, 6 a 9).

### **3. Adroddiad thematig – Argymhellion cenedlaethol**

#### **I'r Swyddfa Gartref a'r Arweinydd Cenedlaethol ar gyfer Maes Busnes Rheoli Gwybodaeth**

##### **Argymhelliad 2**

Erbyn Mai 2016, dylai'r Swyddfa Gartref ac arweinydd Maes Busnes Rheoli Gwybodaeth Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu gytuno ar a gweithredu safonau cyffredin i'w defnyddio gan heddluoedd i nodi a throsglwyddo gwybodaeth, nad yw bellach yn sensitif i ymchwiliad a gynhwysir yn HOLMES, i systemau sy'n hygyrch ac yn chwiliadwy gan wasanaeth yr heddlu yn gyffredinol.

#### **I'r prif gwnstablaiid**

##### **Argymhelliad 1**

Erbyn 30 Tachwedd 2015, dylai prif swyddogion yr heddlu sicrhau y cyflawnir adolygiad o'r modd mae polisïau ac ymarfer rheoli gwybodaeth eu heddluoedd yn cydymffurfio â'r APP ar reoli gwybodaeth er mwyn eu bod yn gweithredu'r ymagwedd genedlaethol ac yn lleihau unrhyw ddargyfeiriad o'r APP hwnnw.

##### **Argymhelliad 3**

Erbyn 30 Tachwedd 2015, dylai prif gwnstablaiid gyflawni archwiliadau systematig yn eu heddluoedd i nodi i ba raddau mae arferion a gweithdrefnau a fabwysiadwyd yn lleol yn cydymffurfio â'r APP ar reoli gwybodaeth.

##### **Argymhelliad 4**

Erbyn Tachwedd 2015, dylai prif gwnstablaiid sicrhau bod prosesau gwybodaeth lleol digonol yn weithredol i ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael mewn modd effeithiol a systematig fel bod y lefelau parhaus o risg mae unigolion yn eu cyflwyno i gymunedau yn cael eu hasesu yn briodol a, ble fo angen, bod gwybodaeth yn cael ei hail gategoreiddio a chysylltu.

##### **Argymhelliad 5**

Erbyn Tachwedd 2015, dylai prif gwnstablaiid sicrhau bod eu prosesau rheoli gwybodaeth lleol i gyd yn nodi a blaenoriaethau cofnodion y rhai sy'n cyflwyno'r risg fwyaf yn ddigonol, er mwyn eu monitro'n briodol, a chymryd camau addas, amserol.

## **Argymhelliad 6**

Erbyn 30 Tachwedd 2015, dylai prif gwnstablaiid sefydlu trefniadau i graffu ar archwiliadau cydymffurfiad â'r APP ar reoli gwybodaeth trwy strwythur llywodraethu rheoli gwybodaeth yr heddlu. Dylai hyn gynnwys mesurau i sicrhau bod categoreiddio cofnodion yn cael ei addasu'n rheolaidd.

## **Argymhelliad 8**

Ar unwaith, dylai prif gwnstablaiid sicrhau bod cofnodion gwybodaeth eu heddlu yn cael eu hadolygu ar ddiwedd y cyfnod adolygiad a osodwyd ar gyfer pob grŵp gwybodaeth, a chreu cofnodion wrth wneud penderfyniadau i gadw gwybodaeth y tu hwnt i'r cyfnod cadw perthnasol.

## **I'r Coleg Plismona**

### **Argymhelliad 7**

Erbyn Tachwedd 2015, dylai'r Coleg Plismona addasu ei APP ar reoli gwybodaeth er mwyn dynodi isafswm y gofynion rheoli gwybodaeth ar gyfer adolygiadau cychwynnol parthed cadw a gwaredu ar wybodaeth.

### **Argymhelliad 9**

Erbyn 30 Tachwedd 2015, dylai'r Coleg Plismona sicrhau bod canllaw penodol am drin ac argaeledd gwybodaeth sensitif wedi ei gynnwys yn yr APP ar reoli gwybodaeth, ac erbyn 30 Mehefin 2016, dylai prif gwnstablaiid sicrhau bod y canllaw a sefydlir parthed gwybodaeth sensitif wedi ei weithredu.

### **Argymhelliad 10**

Erbyn 30 Tachwedd 2015, dylai'r Coleg Plismona adolygu'r APP presennol ar reoli gwybodaeth a chynnwys proses adolygu gyffredin parthed gwybodaeth sensitif i'w mabwysiadu gan bob heddlu. Dylai hyn gynnwys amserlenni ar gyfer adolygu gwybodaeth sensitif er mwyn sicrhau ei bod yn dal wedi ei chategoreiddio'n briodol.